| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Pensiynau** |
| **DYDDIAD** | **12 Rhagfyr 2008** |
| **TEITL** | **Dirwyn i ben Theatr Gwynedd** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD** | **I hysbysu'r Pwyllgor o oblygiadau ac effaith ariannol dirwyn i ben Theatr Gwynedd a'i darfyddiad fel cyflogwr yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd** |
| **AWDUR** | **Dafydd L Edwards – Pennaeth Cyllid** |
| **ARGYMHELLIAD** | **Er gwybodaeth** |

**1.** Ym Mai 2008 cysylltodd cynrychiolydd o fwrdd Theatr Gwynedd ag uned weinyddu'r Gronfa Bensiwn gyda chais am wybodaeth mewn perthynas â goblygiadau Theatr Gwynedd yn darfod gweithredu ar 31 Hydref 2008. Yn ei gyfarfod ar 23 Medi 2008 hysbyswyd y Pwyllgor hwn am ddarfyddiad Theatr Gwynedd mewn adroddiad o dan y teitl "Cyrff Derbyn".

**2.** Mae cwmni Theatr Gwynedd wedi bod yn gorff mynediad yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd ers 1 Ebrill 1997. Ymaelododd wyth aelod o staff â'r cynllun pensiwn ar 1 Ebrill 1997, gyda saith ohonynt yn trosglwyddo hawliau pensiwn o gyn-ddarparwyr i gynyddu eu haelodaeth gronedig.

**3.** Ar ddyddiad derbyn yr ymholiad, proffil aelodaeth y cwmni oedd un pensiynwr a naw aelod cyfredol. Ar y dyddiad darfod arfaethedig, byddai wyth o'r naw aelod cyfredol yn statudol gymwys i fuddion pensiwn yn daladwy yn syth gan y byddent dros oed 50; gyda'r un aelod o dan oed 50 yn gymwys i fuddion gohiriedig yn daladwy o oed ymddeol arferol. O'r wyth ymddeoliad, dim ond un fyddai wedi cyrraedd oed ymddeol arferol (ac o ganlyniad ddim yn creu cost taliad cynnar). Byddai cyfanswm y gost o dalu'r saith budd pensiwn oedd yn weddill yn £133,015.80.

**4.** Fel arfer, mae dwy ran i gyfraniadau cyflogwr, sef graddfa i dalu am gronni dyfodol aelodaeth, a graddfa i dalu am unrhyw ddiffygion o gynaelodaeth. Yn ystod Mai / Mehefin, eglurwyd i fwrdd y cwmni, yn seiliedig ar ganlyniad prisiant 2007, byddai diffygion cyn aelodaeth yn parhau heb eu talu, oherwydd i Theatr Gwynedd beidio â thalu eu cyfraniadau cyflogwr dros y cyfan o'r deg mlynedd nesaf yn unol â'r tybiaethau a wnaed yn ystod y prisiant.

5. Darparodd actwari'r Gronfa, Hymans Robertson, asesiad terfynu yn seiliedig ar gyfran Theatr Gwynedd o asedau a dyledion y Gronfa. Dangosir yr asesiad yma yn y tabl isod:

| DYDDIAD PRISIO | 31 MAWRTH 2007 | 31 HYDREF 2008 | 31 HYDREF 2008 |
|---|---|---|---|
| | Canlyniad 1 | Canlyniad 2 | Canlyniad 3 |
| | **Sail prisiant 2007** | **Sail gyfredol** | **Sail darfyddiad** |
| **Rhagdybiaeth ariannol** | **Cyfredol** | **Cyfredol** | **Sail 'Gilts'** |
| Rhagdybiaethau Demograffig | Cyfredol | Cyfredol | Cyfredol |
| Codiadau Pensiwn | 3.2% y flwyddyn | 3.4% y flwyddyn | 3.4% y flwyddyn |
| Codiadau cyflog | 4.7% y flwyddyn | 4.9% y flwyddyn | 4.9% y flwyddyn |
| Graddfa Disgownt | 5.69% y flwyddyn | 6% y flwyddyn | 4.6% y flwyddyn |
| Trosglwyddo aelodau cyfredol | D/B | Tybio bod aelodau cyfredol dros 50 yn ymddeol yn syth | Tybio bod aelodau cyfredol dros 50 yn ymddeol yn syth |
| Tybiaethau ar ddisgwyliad oes | Yn ôl prisiant 2007 | Yn ôl prisiant 2007 | Yn ôl prisiant 2007 |
| **Canlyniadau** | **31 Mawrth 2007 (£000)** | **23 Hydref 2008 (£000)** | **23 Hydref 2008 (£000)** |
| Dyledion | | | |
| (a) Aelodau cyfredol | 732.6 | 0.0 | 0.0 |
| (b) Aelodau gohiriedig | 0.0 | 90.1 | 132.7 |
| (c) Pensiynwyr | 31.6 | 844.9 | 1038.9 |
| Cyfanswm dyledion | 764.1 | 935.1 | 1171.6 |
| Rhan o'r asedion | 730.6 | 586.9 | 586.9 |
| Gwarged/**(diffyg)** | -33.5 | (348.0) | **(584.6)** |

***Tybiaethau***

***Diweddarwyd y tybiaethau ariannol a ddefnyddiwyd ym mhrisiant ffurfiol 2007 i adlewyrchu cyflwr y farchnad fel ar 23 Hydref 2008. Mae gweddill y tybiaethau'r un fath a'r rhai a ddefnyddiwyd ar gyfer prisiant 2007, oni bai am lwfans ychwanegol o 5% ar y diffygion fel ystyriaeth i wellhad ar ddisgwyliad oes.***

6. Mewn sefyllfa cyflogwr yn terfynu lle nid oes atebolrwydd ar gyfer adennill unrhyw ddiffygion o gyfraniadau cyflogwr, y dull mwyaf gochelgar o brisio diffygion yw ar sail 'gilts' fel y dangosir yn y golofn dde o'r tabl uchod. O dan y dull yma cyfanswm y diffyg mewn perthynas â Theatr Gwynedd yw £584.6k, yn gynwysedig o'r £133k nodwyd ym mharagraff 3 uchod.

7. Mewn cyfarfod o gredydwyr a gynhaliwyd yn Llandudno ar 29 Hydref 2008, apwyntiodd bwrdd Theatr Gwynedd Parkin S. Booth & Co. fel ymgynghorwyr ansolfedd a Robert M. Rutherford o'r cwmni hwnnw fel Datodwr. Anfonwyd datganiad i'w gyflwyno i'r cyfarfod ar ran Cronfa Bensiwn Gwynedd yn datgan y ddyled o £584.6k sydd yn ddyledus. Tra cyflwynwyd hawliad am y swm yma, yn yr amgylchiadau nid yw'n debygol bydd y Gronfa yn adennill y swm llawn, os derbynnir unrhyw ran o'r ddyled yma.